

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 151 Rhif 23 Mehefin 7, 2018 50c.

Y Rhwydwaith Merched yn cefnogi Apêl yr Undeb

Dydd Sadwrn 12 Mai cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Rhwydwaith Merched, y tro hwn yn yr ysgoldy yn Llanuwchllyn. Dyma oedd cartref Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb ddwy flynedd yn ôl ac roedd cyfleusterau modern yr ysgoldy a chroeso twymgalon aelodau'r Hen Gapel yn werthfawr iawn.

Y Parchedig Beti-Wyn James; cadeirydd y Rhwydwaith eleni oedd yn arwain y cyfarfod. Cafwyd defosiwn pwrpasol gan aelodau'r Hen Gapel gan osod naw addolgar i'r diwrnod. Fe soniodd Beti-Wyn James am nod ac amcanion y Rhwydwaith, sef i hybu ac annog gweithgaredd o fewn grwpiau o chwiriwydd a merched ar hyd a lled y wlad.

Dwy ymgyrch

Eisoes mae'r Rhwydwaith yn cefnogi dwy ymgyrch sef hybu'r Gymraeg ac amcanion y llywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chefnogi elusennau yn erbyn trais domestig, gan ddarparu llochesi â nwyddau i'r anghenus. Mae'r ymgyrchoedd yma'n dal ar waith gan y Rhwydwaith, gyda nifer o grwpiau ac eglwysi yn parhau i weithredu drwy gynnal oedfaon a boreau coffi i ddysgwyr er enghraifft. Fe luniwyd oedfa a gweddiâu pwrpasol ar gyfer y Rhwydwaith yn ogystal, ac mae'r rhain i'w canfod ar wefan yr Undeb.



Apêl Madagascar

Ond prif amcan y cyfarfod eleni oedd cyflwyno ymgyrch newydd i'r Rhwydwaith sef cefnogi Apêl Madagascar yr Undeb, ac yn benodol i glywed am waith lloches i ferched yn y wlad honno. Mae'r lloches, 'Akany Avoko Faravohitra' yn cael ei redeg gan eglwys FJKM, ac yn ddiwyddol ar roddion gan yr eglwys ac eraill i gynnal y merched sy'n byw yno. Mae'r merched fel arfer wedi eu cyhuddo o fân droseddau sy'n aml yn digwydd oherwydd tlodi.

Gwraig wadd

Siaradwraig wadd y Rhwydwaith eleni oedd Elenid Jones o Gaerdydd sydd wedi ymweld â'r lloches ei hunan ac sydd â chysylltiad agos â'r ynys. Fe soniodd am y gwaith arbennig mae'r rheolwraig, Hanta, yn ei wneud. Cafodd Hanta ei magu mewn

cartref tebyg, ac wedi iddi dreulio cyfnod yn eglwys Pen-rhys, y Rhondda rai blynyddoedd yn ôl, cafodd ei sbarduno i fynd ati i helpu eraill yn ei gwlad ei hun a chymryd at yr awenau yn y lloches.

Syniadau

Wedi sgwrs afaelgar am y gwaith a chyfle i weld fideo am y lloches, cafodd mynychwyr y cyfarfod gyfle i drafod sut oedd mynd ati i gefnogi'r apêl yn eu heglwysi a'u cyfundebau hwythau. Cafwyd syniadau creadigol ac ymarferol am gynnal boreau coffi a chacen, cystadlaethau pobi a chwis am Fadagascar, er mwyn hybu ymwybyddiaeth a chodi arian at yr apêl. Mi fydd cysylltwyr y Rhwydwaith o fewn y Cyfundebau yn derbyn gwybodaeth am yr ymgyrch yn ystod y flwyddyn, i'w rhannu â'r eglwysi yn lleol.

Gwilym Hiraethog

Yn ystod Diwrnod Staff yn Nhŷ John Penri ar ddydd Mawrth, 15 Mai, gosodwyd llun o Lywydd cyntaf yr Undeb, y Parchg William Rees DD (Gwilym Hiraethog), ar fur y dderbynfa. Dywed y plac bychan ar waelod y llun o ble y daeth: 'Rhodd gan Gapel Libanus, Bontnewydd, Caernarfon, i Dŷ John Penri, Abertawe'.



Pan glywodd ymddiriedolwyr a chyn-aelodau'r eglwys (sydd bellach wedi ei datgorffori) nad oedd llun o'r Llywydd cyntaf yn y swyddfa, aethant ati yn ddirgel i drefnu adfer hen lun a'i fframio, ac yna ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Cyffredinol iddo fynd ag ef i ben ei daith.

Diolchwn yn ddiffuant i gyfeillion y Bontnewydd am eu haelioni a'u caredigrwydd, ac yn arbennig i Mr a Mrs Clifford Jones am drefnu'r adfer a'r fframio. Yn awr, tra bydd Tŷ John Penri, bydd enw Gwilym Hiraethog a Chapel Libanus, Bontnewydd, yn aros yn fyw yng ngof Annibynwyr Cymru.



Pobl y Pentecost: Dal ati i addoli

Dyma'r ail erthygl mewn cyfres o chwech gan y Parch. Casi Jones sy'n ein harwain i ystyried arwyddocâd dyfodiad yr Ysbryd Glân a'i berthnasedd i'n heglwysi ni heddiw.

Diolchwch i'r ARGLWYDD, a galw ar ei enw!
Dwedwch wrth bawb beth mae wedi ei wneud.

Canwch iddo, a defnyddio cerddoriaeth i'w foli!
Dwedwch am y pethau rhyfeddol mae'n eu gwneud. (Salm 105 1-2)

Roedd yr Eglwys Fore yn dal ati i addoli. Bydden nhw'n cyfarfod yn gyson i foli Duw, i weddio ac i rannu'r bara a'r gwin. Nid yn unig roedden nhw'n addoli mewn man cyhoeddus ond roedden nhw hefyd yn cyfarfod yn nhai ei gilydd gan brofi mai rhywbeth ar gyfer bywyd cyfan ydy addoliad nid y Sul yn unig.

Heddiw, ar unrhyw adeg o'r dydd rhywle yn y byd mae 'na bobl yn dal ati o ddifrif i foli Duw, gan weddio mewn gwahanol ieithoedd ac addoli mewn gwahanol ffyrdd. Mae addoliad yr Eglwys fyd-eang fel curiad calon cyson sy'n gyrru cariad drwy'r corff –

cariad oddi wrth Dduw atom ni, cariad oddi wrthym ni at Dduw. Dyma sy'n cadw perthynas yr Eglwys â Duw yn fyw ac yn iach. Fel Cymry rydym yn hoff iawn o ganu a llefaru ond mae addoli gymaint mwy na chanu nodau a dweud geiriau. Wrth wraidd y cyfan mae yna ymdeimlad o ryfeddod dwfn wrth synhwyro presenoldeb y Crist byw yn ein plith wrth i ni ddod ynghyd yn ei enw i'w ganmol a'i ddyrchafu.

Pa wahanol gyfleoedd sydd i aelodau eich eglwys i addoli yn ystod y flwyddyn? Sut fedrwn ni helpu pobl i ymdeimlo â rhyfeddod dwfn wrth addoli?

Os nad oes ganddoch gwrdd gweddi, beth am gynnal un unwaith y mis i ddechrau. Gallech ofyn i bobl gymryd eu tro i arwain y cyfarfod

Ar gyfer pwy neu ar ba thema y carech chi drefnu gwasanaeth gwahanol neu arbennig? Cynlluniwch sut beth fyddai o ran trefn, cynnwys a nawws.



Dathlu'r Atgyfodiad

Braint oedd bod yng nghynulleidfadau Capel Soar, Nefyn fore Sul y Blodau yng ngwasanaeth Pasg plant yr ysgol Sul. Roedd tri ar ddeg o blant rhwng pedair a phedair ar ddeg oed yn actio hanes y Pasg ar lafar ac ar gân. Cafwyd darlenniadau graenus o'r stori gan y genethod hynaf a nhw hefyd ledodd yr emynau cynulleidfadol. Portreadodd bachgen hynaf yr ysgol Sul Iesu Grist yn hynod o effeithiol gyda'i wisg wen a'i farf. Cawsom bortreadau o'r disgyblon yn cysgu yn yr ardd, Pedr yn gwadu'r lesu, y milwyr a'u cleddyfau, Peilat a Barabas yn ogystal â Mair, mam yr Iesu a Mair Magdalen yn wylo wrth y bedd gwag. Yn yr oes sydd ohoni gyda chymaint o weithgareddau eraill yn denu plant ar y Sul, mor galonogol ydi gweld ysgol Sul Soar Nefyn mor llewyrchus. Diolch i'r

plant am ddod i'r ysgol Sul a diolch i'w rhieni am eu hannog. Diolch arbennig i'r ddwy fu'n hyfforddi sef Beryl Ellis Jones a Siân Hughes am eu hymroddiad. Yng ngeiriau'r emyn o eiddo Nantlais, a ganwyd gydag arddeliad yn ystod y gwasanaeth:

Pwy all beidio canu moliant iddo ef?
Y mae Brenin Seion wedi dod i'r dref.

Moliant, moliant,
rhaid i blant roi moliant,
moliant, moliant iddo ef,
moliant iddo ef, moliant iddo ef.

Gydag ef i Salem
awn yn llon ac iach,
Y mae Iesu'n ennill
calon plentyn bach.

Owenna Hughes



Hanes Cychwyn Eglwys Annibynnol Aberaeron

Ar ddechrau'r 19eg ganrif dim ond ychydig o dai oedd yn Aberaeron ac nid oedd neb wedi meddwl bod angen eglwys Annibynnol yno gan fod y Neuaddlwyd o fewn ychydig filltiroedd. Ond yn raddol cynyddodd y boblogaeth, a daeth galw am bregethu yno yn achlysurol. Byddai Dr T. Phillips, ac eraill, yn pregethu yn lled aml yno, mewn cartrefi, a hynny flynyddoedd cyn bod sôn am adeiladu capel.

Wrth weld y lle yn cynyddu'n gyflym, ac aelodau a gwrandawyr y Neuaddlwyd yn amlhau yn fawr, dechreuwyd sôn am gael capel ond bu cryn amser hyd nes iddynt gael tir i adeiladu. O'r diwedd llwyddodd Dr T. Phillips i gael tir cyfleus ar les am 60 mlynedd gan A. T. J. Wynne. Ym 1832 y cafwyd y tir, ac adeiladwyd y capel y flwyddyn ganlynol. Ar ei chychwyniad un o ganghennau Neuaddlwyd oedd yr eglwys. Adeiladwyd yr addoldy ym 1833 a chorfforwyd yr eglwys ym 1834. Pan sefydlwyd hi yn gyntaf nid oedd ond gwan gydag ychydig o aelodau a baich trwm dyled o dros £350.

Tyfodd yr eglwys yn aruthrol ac erbyn 1875 roedd 350 o aelodau a dros 250 yn yr ysgol Sul. Pan gyhoeddwyd *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru* (1875) yr oedd dau o'r gynulleidfadau wedi eu codi i'r weinidogaeth. Sef Jenkin Jones, a addysgwyd yn athrofa Aberhonddu. Ordeiniwyd ef yn Nhŷdewi; bu'n weinidog yn eglwys Saesneg Dowlais cyn symud i Falmouth. Yr ail oedd John Griffiths a dderbyniwyd i athrofa Caerfyrddin ond bu farw cyn mynd yno ym 1868.

(Crynodeb o *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, Thomas Rees a John Thomas, Cyfrol 4, t. 110)

Capel y Baran Rhydyfro
Pontardawe

**DARLITH
FLYNYDDOL**

gan Y Prifardd Einir Jones

BARDDONIAETH

Nos Fawrth, 19 Mehefin 2018
am 6.30 pm

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael
Croeso cynnes i bawb

Manylion: Dilys Walters
01792 863823

Barn Annibynnol

'Aberaeron – lle bach drud ond neis, fatha Cricieth,' dyna farn ffrind i mi am y dref fach liwgar y bydd llu o Annibynwyr yn crwydro ei strydoedd ac yn rhoi hwb i'w heconomi, gobeithio, erbyn i'r golofn hon weld golau dydd.

Os ydych yn darllen hwn gartref ar ddydd lau Cyfarfodydd yr Undeb, beth am ddod draw i Aberaeron am ddiwrnod neu ddau? Mae holl eglwysi'r Undeb yn cael pecyn gyda manylion y cyfarfodydd a cherdyn pleidleisio. Peidiwch â gadael i'ch un chi fynd yn wastraff!

Mae'n rhaid i mi ddweud, dw i'n edrych ymlaen. Does dim llawer ers i mi ddechrau mynychu Cyfarfodydd Blyneddol Undeb yr Annibynwyr. Rhyw fath o wyliau bach i'r gw'r oedd Cyfarfodydd yr Undeb – a minnau'n mynd i'r Steddod! Byddwn i'n mynd i'r bregeth a/neu anerchiad y Llywydd pan oedd yr Undeb o fewn cyrraedd ond heb feddwl mynd i sesiynau'r dydd. Ers rhai blyneddau nawr, mae gen i bwyllgor ar fore cyntaf y Cyfarfodydd ac felly dw i wedi bod yn aros ymlaen ar gyfer gweddill y gweithgareddau.

Eleni, fe wnes i ddychryn braidd o ddeall bod y Cyfarfodydd yn dechrau ddiwrnod yn gynt nag arfer, ar ddydd Mercher. Mae'n gofyn tipyn i rywun golli tri

neu bedwar diwrnod o waith i ddod i'r Cyfarfodydd ac mae'n rhy bell i deithio yn ôl a blaen rhwng Aberaeron a Threfor. Ond wedyn, tybed faint o bobl sy'n colli gwaith cyffredin er mwyn dod i'r Cyfarfodydd? Mae'n siŵr bod y rhan fwyaf yn weinidogion/gweithwyr Cristnogol neu wedi ymdeol. Diolch i ryfeddodau technoleg rwy'n gobeithio gallu gwneud tipyn o waith yn ystod y cyfnod.

Felly, am beth rwy'n edrych ymlaen?

Wel, wrth reswm, mae rhywun yn edrych ymlaen at y cyfle i ddiolch i Geraint Tudur am ei waith fel Ysgrifennydd Cyffredinol dros y blyneddau a dymuno'n dda iddo at y dyfodol, ac yn yr un modd, mynegi'n gwerthfawrogiad o waith Glyn Williams sy'n cyrraedd diwedd ei dymor fel Llywydd. Bydd yn hyfryd cael croesawu Dyfrig Rees, Jill-Hailey Harries a Beti-Wyn James ar ddechrau ar eu cyfnodau hwy yn eu gwahanol swyddi.

Bydd cyfle i wneud hynny'n swyddogol brynawn Mercher ond mae'r cyhoeddiad ar yr amserlen yn ddigon i godi braw ar y dewraf. '1.00 – 4.00 Cynhadledd 1'. Mae'r cyfarfod hwn yn dipyn o farathon fel rheol, yn enwedig i bobl sydd wedi codi'n blygeiniol ac wedi teithio am oriau – tybed a fydda modd tocio tipyn arno heb golli dim o bwys?

Un fantais o ddechrau'r cyfarfodydd ddiwrnod yn gynt nag arfer yw nad oes cyfarfod ar y noson gyntaf. Gan amlaf, mae tipyn o ruthr rhwng y Te Croeso a

Chyflwyniad eglwysi'r ardal. Eleni, y gobaith yw y cawn hamddena dros fyrrddau'r Te Croeso a threulio'r noson yn sgwrsio yn y Plu neu fannau eraill.

Un anfantais yn Rhydaman y llynedd oedd nad oedd unman amlwg i bobl gasglu ar ddiwedd noson am sgwrs (neu, os oedd 'na, ddwedodd neb wrthon ni!). Gobeithio y bydd mwy o gyfle i gymdeithasu eleni.

A sôn am y Te Croeso – rŷn ni wedi bod yn drefnus eleni ac wedi archebu tocynnau bwyd mewn pryd – jest abowt. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr rai blyneddau yn ôl roedd Dafydd a fi'n bwyta pei a chips mewn Irish Pub (sy'n swnio'n hollol wahanol i Dafarn Wyddelig) tra oedd pawb arall yn gwledda uwch byrddau'r Te Croeso!

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y Cyflwyniad ar y nos Fercher. Yn ôl pob sôn, mae 'na frwdrydedd mawr yn y cylch ac fe allwn ddisgwyl i'r Freuddwyd ein gwfreiddio a'n hysbrydoli.

Bydd yn braf cael gwranddo ar Guto Prys ap Gwynfor yn pregethu ar y nos Wener. Fe gafodd Guto ddylanwad arbennig ar griw bach ohonom pan ddaeth yn weinidog ifanc i Bencader a ninnau yn ein harddegau ac mae gennym olwg mawr arno byth ers hynny.

Ac fe ddaeth yn bryd lansio Apêl Madagascar. Gwnaed ymdrechion enfawr i gyrraedd i'r fan hon. Edrychwn ymlaen at gyd-ddathlu daucanmlwyddiant glaniad y cenhadon ym Madagascar yn Aberaeron cyn bwrw eto i waith dros yr apêl yn ystod y misoedd nesaf.

Felly, dyma gyfle i Annibynwyr Cymru ddod ynghyd a dod i nabod ein gilydd ac i nabod tref fach neis – a dim rhy ddrud, gobeithio!

Sian Roberts

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

YSGOL HAF Y GWEINIDOGION – MEHEFIN 25-27, 2018

Canolfan Halliwell

Coleg Prifysgol Cymru y Drindod

Dewi Sant, Caerfyrddin

Prif thema: *Gweinidogaeth – Yr Alwad*

Cadeirydd: Beti Wyn James.

Llun 25

- 4.00 Cyrraedd, cofrestru, coffi.
- 5.00 Seminar: **Yr alwad i weinyddu**
I agor: Alun Tudur, Dewi Myrddin Hughes, Gwyndaf Richards
- 6.30 Swper
- 7.30 Darlith Goffa W. T. Pennar Davies ac R. Tudur Jones
Alun Wyn Bevan: Y Campau ac Ysbryd Brawdol
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

Mawrth 26

- 8.00 Brecwast
- 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
- 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
- 10.30 Coffi
- 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Catrin Haf Williams – Y Defnydd o'r Hen**

Destament yn y Newydd:

Trafodaethau a Datblygiadau mewn Ysgolheictod Gyfoes

- 12.30 Cinio
- 1.30 Gwibdaith dan ofal **Dyfrig Rees**
- 5.00 Coffi
- 5.30 Cyfarfod Busnes
- 6.30 Swper
- 7.30 Atgofion: **John Lewis Jones**
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

Mercher 27

- 8.00 Brecwast
 - 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
 - 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
 - 10.30 Coffi
 - 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Noel A. Davies – Gweinidogaeth Gristnogol heddiw: gwreiddiau a gorwelion**
 - 12.15 Defosiwn: **Y Cadeirydd**
 - 12.30 Cinio
- Enwau i'r Ysg. Dyfrig Rees erbyn 5 Mehefin, fan bellaf.
mandydyfrig@btinternet.com 01656 648726.
- Noddir yr Ysgol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

TYSTEB

Bydd y Parchedig Andrew Lenny yn ymdeol o'i ofalaeth fel gweinidog yr Annibynwyr yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, ar ddiwedd Gorffennaf eleni ar ôl 31 mlynedd o wasanaeth diflino. Bwriedir gwneud tysteb i ddangos gwerthfawrogiad yr ardal iddo ef a Mrs Lenny ac fe dderbynnir cyfraniadau os dymunwch i 'Eglwys Gynulleidfaol Seion Stryd y Popty', i'w hanfon i Lewis Gruffudd, 66 Maesceinion, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3QJ, erbyn 17 Mehefin.

Bydd y dysteb yn cael ei chyflwyno iddynt mewn gwasanaeth arbennig ym mis Gorffennaf.

Erthyglau, llythyr at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrau:
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
 Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddi y Pedair Tudalen
 Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
 Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
 Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
 wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
 chynnwys y Pedair Tudalen.

PENCADER

Daeth tyrfa
 luosog i'r
 Tabernacl
 Pencader
 prynhawn Sul
 16 Ebrill,
 2018 gan ei
 bod yn oedfa
 arbennig
 iawn. Ein
 gweinidog y
 Parchedig Ddr
 Rheinallt Davies oedd yn gwasanaethu a'r
 organydd oedd Mrs Fioled Jones. Roedd yn
 arbennig oherwydd ei bod yn oedfa gymun,
 ond hefyd fe urddwyd Mrs Nancy Jones,
 Erw Hir, yn ddiagon anrhydeddus, mewn
 gwerthfawrogiad o'i holl waith. Mae Nancy
 wedi gwasanaethu ei Harglwydd yn y
 Tabernacl am dros hanner cant o
 flynyddoedd, yn defnyddio ei thalent
 gerddorol i hybu'r gân o Sul i Sul yn yr



oedfa ac yn yr ysgol Sul, ac yn flynyddol yn
 y Gymanfa ganu. Mae ganddi ddawn
 arbennig fel organydd ac o dro i dro bydd yn
 cyfeilio heb unrhyw lyfryn cerddoriaeth o'i
 blaen. Bydd hefyd yn dysgu'r pedwar llais
 i'r côr er mwyn hwyluso'r harmoni yn y
 gymanfa ganu.

Cyfraniad sylweddol

Mae hefyd wedi rhoi gwasanaeth diflino
 ymhob adran o waith yr eglwys. Tros y
 blynyddoedd y mae wedi cynorthwyo gyda
 chynnal gwasanaethau, dysgu plant yn yr
 ysgol Sul, bu'n aelod o ysgol Sul yr
 oedolion, yn cyfrannu'n hael plant fyddwn yn
 cael lluniaeth yn y festri ac yn helpu wrth y
 byrddau pan fydd angen. Mawr yw ein
 braint o'i chael yn aelod yn y Tabernacl fel y
 nodwyd gan ein Gweinidog, Lynn Evans ac
 Haulwen Lewis ar ddiwedd yr oedfa.
 Diolchwn i Dduw amdani. Yn dilyn yr oedfa
 daeth pawb ynghyd am gwpanaid o de a
 chacen yn y festri, a bu plant lleiaf yr ysgol
 Sul yn canu a chyflwyno anrheg fach i
 Nancy.

Haulwen Lewis



Dathlu ac edrych ymlaen tua'r dyfodol

Mae'r Cyrrdau Blynyddol yn gyfle i
 ddathlu'r achos a dynna a wnaethpwyd
 yn y Tabernacl, Hendy-gwyn yn
 ddiweddar. Yn ogystal roedd yn gyfle i
 edrych ymlaen at y dyfodol gan i'r
 sgriniau teledu newydd gyrraedd yr un
 wythnos. Gobeithir y byddant yn
 cyfoethogi'r addoli ac yn fuddsoddiad ar
 gyfer y blynyddoedd i ddod.

Y bregethwraig wadd oedd y parch
 Beti-Wyn James, Caerfyrddin a chafwyd
 pregeth arbennig ganddi ar ddylanwad
 magwraeth Iesu fel saer ar ei weinidogaeth.
 Yn y prynhawn daeth a ffrind gyda hi i
 oedfa'r plant a'r ieuencid sef Islwyn yr Asyn.
 Cafwyd llawer o hwyl wrth i Beti-Wyn adrodd
 stori bwrpasol iawn ar gyfer dechrau Wythnos
 Cymorth Cristnogol.



UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y FREUDDWYD

yn rhan o ddathliadau glaniad cenhadon Madagasgar

1818-2018

8pm, 8 Mehefin
 Celaeron, Neuadd-Iwyd

...y stori a'r sgriptwyr,
 y cast a'r côr - o'n milltir
 sgwâr a Madagasgar

Tocynnau yn £8, plant dan 16 oed AM DDIM. 01570 479 697 / www.theatrefinfach.cymru

Williams & Bourne
 Cyfnewtyn Soliadau

MORGAN & DAVIES

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Cyfarfodydd Blynyddol 2018 Cyfundebyd Ceredigion Neuadd Goffa, Aberaeron SA46 0DP

DYDD MERCHER 6 Mehefin

1.00 CYNHADLEDD 1 Cadeirydd: Y Llywydd, Mr D. Glyn Williams
 Defosiwn - Parchg D. Andrew Lenny

5.00 TE CROESO - Gwesty'r Plu, Aberaeron

DYDD IAU 7 Mehefin

10.00 CYNHADLEDD 2 2.00 CYNHADLEDD 3
 4.00 FFORWM AGORED YR UNDEB
 7.30 OEDFA O FAWL - capel y Tabernacl, Aberaeron
 Llywydd: Mr D. Glyn Williams. Pregeth: Parchg Guto Prys ap Gwynfor

DYDD GWENER 8 Mehefin

10.00 GWIBDAITH LEOL NEU FFILM
 2.30 OEDFA'R LLYWYDD - y Neuadd Goffa
 Anerchiad gan y Llywydd newydd, Parchg Jill-Halley Harries
 8.00 CYFLWYNIAD gan aelodau a chyfeillion eglwys Cyfundebyd Ceredigion
 Y Freuddwyd - Canolfan Celaeron, ger Neuadd-Iwyd SA46 7RG

DYDD SADWRN 9 Mehefin

10.00 Defosiwn - Dr Dafydd Tudur
 10.15 Cystadlaethau Cwpan Denman A Thlysau Cyfundebyd Lerpwl
 Siarad cyhoeddus a gwo'rwyo'r cystadlaethau
 11.30 LANSIO APÊL MADAGASCAR
 2.00 OEDFA DDATHLU - capel y Tabernacl
 Dau canmilyddiant glaniad y cenhadon o Gymru ym Madagasgar
 Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jill-Halley Harries
 Pregeth: Parchg Ddr Noel A. Davies
 7.30 CYNGERDD DATHLU
 Amrywiol artistiaid o Gymru a Madagasgar
 Croeso cynnes iawn i'r cyfarfodydd ac i'r dathliadau